

Ymateb myfyrwyr i'r Achos Busnes 'Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd'

Gan Swyddogion Sabothol 2018/2019

Chwefror 2019

Cynnwys

	<i>Tudalen</i>
1. Ymateb UMCB ac Undeb Bangor	3-4
2. Atodiadau - Sylwadau gan fyfyrwyr	5-29
1. Atodiad 1	5
2. Atodiad 2	6
3. Atodiad 3	8
4. Atodiad 4	9
5. Atodiad 5	10
6. Atodiad 6	11
7. Atodiad 7	12
8. Atodiad 8	15
9. Atodiad 9	16
10. Atodiad 10	17
11. Atodiad 11	18
12. Atodiad 12	19
13. Atodiad 13	20
14. Atodiad 14	21
15. Atodiad 15	24
16. Atodiad 16	25
17. Atodiad 17a	26
18. Atodiad 17b	29

Ymateb UMCB ac Undeb Bangor i'r Achos Busnes Dros Newid: Strategaeth Gynaliadwyedd ar gyfer yr Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

(At sylw Deon y Coleg, Yr Athro Andrew Edwards)

Ar y 13eg o Chwefror, 2019, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda myfyrwyr sy'n astudio cwrs gradd (llawn neu gyd-anrhydedd) o fewn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd mewn ymateb i'r achos busnes 'Strategaeth gynaliadwyedd ar gyfer Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd'. Trefnwyd y grŵp ffocws gan UMCB ac Undeb Bangor. Cynhaliwyd y grŵp ffocws mewn ymateb i rai pryderon a godwyd gan fyfyrwyr. Ynghlwm hefyd y mae ymatebion gan fyfyrwyr nad oeddent yn bresennol yn y grŵp ffocws.

Mae'n deg nodi bod ysbryd y myfyrwyr yn y grŵp ffocws yn isel iawn a hynny gan ystyried y colledion i staff sydd eisoes wedi digwydd yn yr Ysgol. Yn ystod yr FSB, collwyd un darlithydd ac aelod staff cefnogi gyda staff yr adran yn disgyn o 7 i 5. Cred y myfyrwyr y byddai'r newid arfaethedig o golli 1 aelod arall o staff, sy'n gyfwerth ag 20% o staff yr Ysgol yn cael effaith ofnadwy ac yn golygu y byddai profiad myfyrwyr yn dioddef. Roedd y myfyrwyr yn teimlo bod yr Ysgol wedi bod trwy gyfnod tymhestlog rhwng yr FSB ac ail-sefydlu Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd a byddai hyn yn rhoi'r Ysgol mewn sefyllfa anodd ac anghynladwy. Gofynnodd y myfyrwyr i'r Brifysgol ail-ystyried yr achos busnes er mwyn i'r Ysgol fynd i'r afael gyda'r elfen Astudiaethau Celtaidd yn llawn, roedd myfyrwyr yn teimlo'n gyffrous ynghylch y datblygiad academaidd yma.

Dyma amlinellu rhai o'r prif bryderon ymysg myfyrwyr.

Effaith ar y ddarpariaeth

Roedd y myfyrwyr yn poeni'n andwyol ynghylch y lefel o ddarpariaeth y gallai'r Ysgol eu cynnig pe bai'r achos yn cael ei wireddu. Nododd y myfyrwyr bod y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn faes eang gyda'r Ysgol yn cynnig arbenigedd mewn lluo o wahanol feysydd - barddoniaeth o'r chweched ganrif tan heddiw, byd y ddrama, ysgrifennu creadigol, athroniaeth, y mabinogion, Gwyddeleg, y nofel draddodiadol a chyfoes, hanes yr iaith, Cymraeg Proffesiynol, llenyddiaeth Gymraeg America a llawer mwy. Roedd consensws cyffredinol o blith myfyrwyr a fuodd ymhob diwrnod agored ar gyfer y cwrs ar draws Cymru mae prif atyniad Ysgol y Gymraeg ym Mangor oedd yr amrywiaeth o fodiwlau oedd ar gael. Dywedodd y myfyrwyr bod pob darlithydd yn arbenigo mewn meysydd gwahanol a byddai tynnu un yn effeithio ar faes penodol ac yn sgil hynny yn effeithio ar y cwrs gradd. Roedd y myfyrwyr yn ymhyfrydu'n y ffaith ei bod nhw'n cael astudio amrywiaeth o fodiwlau ond yn gallu arbenigo wrth gyrraedd yr ail a'r drydedd flwyddyn. Pwysleisiwyd y pwynt hwn o safbwynt myfyrwyr ôl-radd hefyd gan fod yr arbenigedd hynny yn allweddol i sicrhau'r profiad rhagorol i fyfyrwyr. Mynegodd y myfyrwyr eu pryder y byddai colli un aelod o staff yn golygu colli maes penodol ac o ganlyniad na fyddai hynny'n rhoi'r profiad academaidd cyflawn iddynt.

Datblygiad Astudiaethau Celtaidd

Mynegodd y myfyrwyr groeso twymgalon i'r Brifysgol am ychwanegu astudiaethau Celtaidd i'r Ysgol, ond nid oeddent yn gweld synnwyr mewn ehangu maes addysgu tra'n crybwyll gwneud toriadau i'r lefel staffio. Roedd y teimlad yn gryf y dylai'r Brifysgol rhoi cyfnod o

amser i weld os oedd yr ychwanegiad yn cyfrannu'n gadarnhaol cyn gwneud penderfyniadau ynghylch staffio.

Marchnata

Fel trafodwyd yn yr adroddiadau blaenorol (Undeb Bangor ac UMCB) mae'r strategaeth farchnata yn peri gofid i fyfyrwyr. Roedd y myfyrwyr yn teimlo bod staff yr Ysgol yn mynd hyd eithaf eu gallu i chwarae rhan yn denu myfyrwyr i Fangor. Cyfeirwyd yn benodol at y cyrsiau y mae Ysgol y Gymraeg yn trefnu yng Ngwersyll Glan-llyn ar gyfer myfyrwyr lefel A fel arwydd o gryfder yng ngweledigaeth a dyletswydd yr Ysgol yng nghymuned Cymru. Mynegodd y myfyrwyr bryder ynghylch y strategaeth farchnata ac yn benodol, trafodwyd diffyg ysbryd Prifysgol Bangor mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Gwobrau Selar, Yr Ŵyl Gerdd Dant, Ffermwyr Ifainc ac yn y blaen. Codwyd pryder hefyd nad oedd digon yn cael eu wneud i hysbysebu'r graddau cyd-anrhydedd gan fod y myfyrwyr yn teimlo fod yr apêl i astudio graddau ar y cyd efo'r Gymraeg yn un fawr. Nododd y myfyrwyr bod nifer yn newid i radd sengl ar ôl blwyddyn o gyd-anrhydedd i Ysgol y Gymraeg sy'n profi safon yr addysgu.

Effaith Gymdeithasol

Un o'r pwyntiau a godwyd gydag angerdd gan fyfyrwyr oedd yr effaith y bydda'r newidiadau arfaethedig yn eu cael ar y Gymdeithas a'r Gymuned. Clodforodd y myfyrwyr staff yr Ysgol am eu hymroddiad i'r gymuned gan nodi eu bod nhw'n sicr bod staff yr Ysgol wedi cyfrannu at ganoedd o weithgareddau boed hynny'n beirniadu mewn Eisteddfodau a siarad mewn cylchoedd cymdeithas. Cred y myfyrwyr bod yr effaith mae hyn yn ei gael ar Brifysgol Bangor yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo. Yn ei dro, teimlodd y myfyrwyr y byddai hyn yn cael effaith ar enw da a bri yr Ysgol yn y gymuned gan y cysylltir yr holl staff fel arbenigwyr yn eu meysydd priodol. Roedd hi'n amlwg o blith y myfyrwyr bod cenhadu yn y modd hwn yn bwysig i'r Ysgol a'r Brifysgol gan gwestiynu a fyddai modd cenhadu Prifysgol Bangor i'r un graddau pe gollant un aelod o staff.

Clo

Roedd hi'n amlwg fod y myfyrwyr yn gofidio'n arw ynghylch y newid arfaethedig ac wir yn poeni am ddyfodol Ysgol y Gymraeg. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn seiliedig ar y grŵp ffocws ac yn yr atodiadau mae myfyrwyr yn ymhelaethu ar y themâu hyn ac yn trafod pethau amgenach.

Mae UMCB ac Undeb Bangor yn cefnogi llais bob un myfyriwr ar draws y Brifysgol ac yn hyderu y bydd y Brifysgol yn rhoi bob chwarae teg i'r sylwadau hyn.

Sylwadau gan fyfyrwyr a gasglwyd gan Undeb Bangor ac UMCB

Atodiad 1

Annwyl [REDACTED]

Ni allaf fod yn y sesiwn ymateb i'r achos busnes dros newid Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd brynhawn yma, ond rydw i'n credu ei bod hi'n bwysig imi gyfathrebu fy mhryderon fel myfyriwr ôl-raddedig, ac fel cyn-fyfyriwr B.A.

Credaf yn gryf mai camgymeriad dybryd fyddai lleihau aelodau staff academiaidd yr ysgol, a hynny am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Gymraeg yn faes llawer yn rhy aml-didsgyblaethol i gyfyngu ar y nifer o'r rheini sydd yn ei haddysgu i fyfyrwyr. Ac o galyniad, waeth gymaint yn llai yw cohort o'r myfyrwyr nag ysgolion megis seicoleg, mae'n bwysig cadw'r niferoedd staff er mwyn sicrhau parhau â'r amrywiaeth addysgiadol hwnnw.
- Ystyriwn, er enghraifft, pa mor unigryw yw darpariaeth yr addysg ysgrifennu creadigol a gynnigir gan yr adran. Mae'r ddarpariaeth honno'n anhebyg i unrhyw adran Gymraeg arall yn y byd. Yn ogystal â hynny, mae ysgrifennu creadigol Cymraeg yn faes mor amrywiol. Mae gennym ddarlithwyr yn yr adran sy'n arbenigo ym maes y nofel, straeon byrion, sgrriptio a barddoni. Mae'r gynghanedd yn ychwanegu haen ychwanegol wedyn i'r amrywiaeth honno. Byddai cael gwared ag unrhyw aelod o staff yn rhoi'r elfen arbennig honno, USP y brifysgol, os hoffech, mewn perygl. Ymhellach, mae'r adran dros y blynyddoedd wedi magu rhai o lenorion pwysicaf yr iaith. Pe amiddifadir ein disgyblion o'r cyfle i fynd i'r afael â'r addysg greadigol unigryw hon, byddai llenyddiaeth ein gwlad yn llawer tlotach, yn ogystal ag enw da Prifysgol Bangor fel magwrfa llenorion. Gallaf dystio'n bersonol na fyddwn fyth wedi gwireddu breuddwyd oes o gipio cadair Eisteddfod yr urdd 2018 oni bai am ar arweiniad y cefais yn ystod fy ngradd.
- Rhaid ystyried yr adran fel sefydliad tu hwnt i furiau'r adran ei hun. Fe'i ystyrir ymhlith ein sefydliadau cenedlaethol. Y mae'n ganolfan ddiwylliannol yng ngogledd Cymru. Byddai glastwreiddio allbwn y ganolfan honno'n anoeth. Yn ogystal â hynny mae cyfraniad staff a myfyrwyr yr adran, drwy gyhoeddi eu gwaith neu enill gwobrau cenedlaethol, yn hysbyseb arbennig i'r brifysgol. Yng ngoleuni hyn mae'n rhaid ystyried cadw holl aelodau staff yr adran hon fel buddsoddiad.
- Rhaid ystyried y Gymraeg fel pwnc cwbl unigryw ym Mhrifysgol Bangor. Gan gyn lleied yr adrannau Gymraeg yn y byd, y mae peryg pe na bai disgyblaeth arbennig yn cael ei dysgu ym Mangor, ni fyddai'n cael ei dysgu o gwbl. Nid yw hon yn ystyriaeth mewn pynciau mwy rhyngwladol.

Yn fyr, dyma ambell agwedd y mae'n rhaid eu hystyried wrth fwrw golwg ar yr achos busnes, ac hyderaf y byddwch yn cyfathrebu fy mhryderon i'r sawl sy'n berthnasol.

Yn gywir, [REDACTED], myfyriwr ôl-radd.

Atodiad 2

Annwyl lywydd,

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r achosion busnes dros newid posib ar gyfer Ysgol y Gymraeg yn sgil sefyllfa ariannol presennol y Brifysgol. Deallaf mai'r newid arfaethedig yw colli un swydd gyfystyr â llawn amser ar lefel Athro a chynyddu'r darpariaeth yn y maes Astudiaethau Celtaidd.

Yn gyntaf, hoffwn fynegi fy mhryderon ynghylch y ffaith mai un rheswm dros y newid yw er mwyn buddsoddi yn yr ochr 'Celtaidd' o'r Ysgol. Wn ein bod wedi dod i gytundeb i newid enw'r Ysgol i gynnwys 'Astudiaethau Celtaidd' yn 2018, ond gwnaethom hynny ar yr amod na fuasai dim yn newid o'r hyn oedd gennym yn Ysgol y Gymraeg yn barod. Mae hyn yn cynnwys aelodau staff a modiwlau. Nid wyf yn gweld unrhyw da yn dod o leihau nifer y modiwlau sydd ar gael yn yr Ysgol. Mae'n syniad da ychwanegu modiwlau Celtaidd er mwyn apelio at ystod ehangach o ddarpar-fyfyrwyr ond ni ddylai hynny effeithio ar y modiwlau sydd ar gael ar y funud. Mae Ysgol y Gymraeg yn adnabyddus am ei arbenigedd ac mae'r ystod yma o fodiwlau yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddewis pynciau sydd o ddiddordeb iddynt. Petai llai o fodiwlau Ysgol y Gymraeg yn bod er mwyn gwneud lle i fodiwlau Celtaidd buasai'r Ysgol yn denu llai o fyfyrwyr sydd eisiau astudio'r Gymraeg (yn hytrach na Chymraeg ac Astudiaethau Celtaidd). Ni ddylai'r ffaith fod modiwlau Celtaidd ar gael yn cyfyngu dewis y myfyrwyr sydd ddim o anghenraid eisiau gwneud modiwlau Celtaidd. O brofiad personol, rwy'n ymwybodol mai ystod eang o fodiwlau Ysgol y Gymraeg ym Mangor oedd un o'r rhesymau pennaf fy mod wedi penderfynu astudio yma yn hytrach na mynd i brifysgol arall felly buasai meddwl bod hynny am newid, hyd yn oed y mymryn lleiaf, yn peri poendod mawr i mi.

Deallaf mai rheswm arall dros y newid arfaethedig hwn yw bod cymarebau staff/myfyrwyr yn isel o gymharu â meysydd pwnc eraill yn y Brifysgol. Hoffwn eich hysbysu mai dyma un o'r rhesymau pennaf pam fod Ysgol y Gymraeg yn llwyddo gymaint fel Ysgol, a pham y bu iddi ennill Gwobr Ysgol y Flwyddyn yn y SLTAs y llynedd. Mae'r cysylltiad a'r cymarebau staff/myfyrwyr hynny yn hollbwysig. Rydym yn adnabod y darlithwyr yn dda ac yn teimlo felly y gallem siarad â hwy am unrhyw bryderon sydd gennym. Petai llai o ddarlithwyr buasai hi'n anoddach o lawer cael y cysylltiad hwnnw gyda'r nifer o fyfyrwyr presennol. Yn ogystal, gobaith newid enw'r Ysgol i Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yw er mwyn tyfu nifer y myfyrwyr yn yr Ysgol, felly nid oes synnwyr mewn lleihau nifer y staff er mwyn newid y cymarebau staff/myfyrwyr oherwydd y bydd angen mwy o staff i weithio â mwy o fyfyrwyr beth bynnag. O'm profiad personol, ni buaswn wedi dewis astudio ym Mangor oni bai am staff Ysgol y Gymraeg. Roedd pob un mor groesawgar ar y dyddiau agored a phan fu i mi ymweld â'r Brifysgol ar gyrsiau gyda'r ysgol uwchradd. Nid oes gwadu y byddent yn parhau i gael yr un effaith ar ddarpar-fyfyrwyr y dyfodol.

Ni buaswn yn gallu dychmygu sut buasai colli aelod o staff yn effeithio ar ddeinameg yr Ysgol. Mae pob aelod yn dod â rhywbeth gwahanol i'r Ysgol a mae gan bob un ohonynt eu harbenigedd ac adlewyrcha hynny trwy'r modiwlau y maent yn eu dysgu. Buasai colli un aelod yn golled rhy anferthol a buasai hynny yn effeithio bob agwedd o'r cwrs, o'r dewis

modiwlau sydd ar gael i'r tiwtoriaid personol heb sôn am y pwysau gwaith ychwanegol y buasai pawb arall yn ei gael yn sgil habsenoldeb yr aelod staff. Yn 2018, rydym eisoes wedi colli Dr Manon Wyn Williams o'n hysgol, ac er ei bod yn cael dysgu modiwlau i ni o'i hysgol newydd nid yw hynny yn golygu na wnaethom deimlo'r ergyd. Roedd hi hefyd yn anodd ofnadwy arnom pan fu rhaid i Mr Iwan Davies, ein aelod staff gweinyddol, symud Ysgol yn 2018. Roedd colled enfawr ar ei ôl. Yn bendant ni allwn fforddio colli mwy o aelodau staff os yw'r Ysgol am barhau i fod mor uchelgeisiol a llwyddiannus a fu yn y gorffennol.

Mae staff Ysgol y Gymraeg hefyd yn weithgar iawn tu allan i'r swyddfa. Mewn blwyddyn maent yn gwneud cannoedd o wahanol ddiwyddiadau o weithdai efo'r Urdd i ddarlithoedd cyhoeddus ac yn y blaen. Mae'r staff yn adnabyddus ledled Cymru ac yn ffigyrau pwysig felly yn ein cymdeithas a chymuned Gymraeg. Mae'r staff presennol wir yn hybu enw da'r Ysgol, a thrwy hynny hybu enw da'r Brifysgol a buasai'n biti enfawr colli hynny.

I gloi felly, nid wyf yn meddwl y daw unrhyw beth da o leihau nifer y staff yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Petai hynny yn digwydd y buasai yn golled enfawr i fyfyrwyr presennol, darpar-fyfyrwyr a'r gymuned Gymraeg tu allan i waliau'r Brifysgol. Rwy'n sicr petaech yn buddsoddi yn y newid yn enw'r Ysgol ac yn gwneud hynny trwy ychwanegu at yr hyn sy'n bodoli ac yn gweithio'n berffaith yn barod yn hytrach na thynnu i ffwrdd o hynny y byddech yn gweld incwm yr Ysgol yn codi, a fydd yn ei dro, yn helpu i adfer y sefyllfa ariannol anffodus y mae'r brifysgol ynnddi ar hyn o bryd. Petaech eisiau sicrhau hynny yn fwyfwy awgrymaf eich bod yn marchnata digwyddiadau yn ogystal â'r cwrs ei hun yn fwy effeithiol trwy sicrhau fod y neges yn cyrraedd gynulleidfa ehangach.

Gan obeithio eich bod yn deall fy mhryderon ac yn eu cymryd i ystyriaeth,

Diolch,

██████████

Atodiad 3

Annwyl [REDACTED]

Fel myfyrwraig trydedd blwyddyn yn astudio'r Gymraeg rwy'n bryderus iawn am y newidiadau sydd yn digwydd o fewn yr ysgol ar hyn o bryd. Rwy'n teimlo'n lwcus o gael bod yn rhan o gymuned ac agosatwydd yr ysgol gyda'r myfyrwyr eraill ac yn enwedig y darlithwyr hynod ymroddedig a deallus tuag atom ni fel myfyrwyr ac i'r addysgu.

Rwy'n bwriadu dilyn cwrs MA Cymraeg flwyddyn nesaf ym Mangor, er mai fy mwriad i ddechrau oedd dilyn y cwrs hynny ym Mhrifysgol Caerdydd. Wedi i mi fod ar ddiwrnod agored yng Nghaerdydd, sylweddolais mai ym Mangor mae'r ddarpariaeth orau i mi o ran y cwrs ôl-radd yn y Gymraeg ac felly dyna gadarnhau fy mhenderfyniad i aros ym Mangor. Mae'n bryder mawr i mi y bydd arbennigedd o bosibl yn cael ei golli o fewn yr ysgol, a gall hynny effeithio ar fy nhymor olaf o fy nghwrs gradd, a fy nyfodol wrth i mi ddilyn cwrs ôl-radd.

Trist yw ystyried y golled a fydd yn digwydd yn ein hysgol o bosibl, mewn cyfnod lle mae'r llywodraeth yn gosod targedau ar gyfer mwy o siaradwyr Cymraeg, pa synnwyr sydd mewn diddymu'r ddarpariaeth wych o gyrsiau cyfrwng Cymraeg?

Diolch

[REDACTED]

Atodiad 4

Ymateb yn dilyn ymgynghoriad Ysgol y Gymraeg:

Mae Ysgol y Gymraeg yma ym Mhrifysgol Bangor yn llawer mwy na dim ond Ysgol academiaidd. Mae yn gymuned glos gyda chysylltiad agos rhwng y myfyrwyr a'r staff. Rydym eisios wedi gweld dirywiad yn y gymuned hon yn dilyn toriadau a cholli Mr Iwan Davies fel gweinyddwr yr Ysgol a Dr Manon Williams fel aelod o staff darlithio. Ofnaf y byddai colli aelod o staff ar lefel Athro yn arwain at ddirywiad pellach yn agosatrwydd yr Ysgol. Yr agosatrwydd hwn oedd un o'r elfennau pwysig i mi a nifer o'm cyd-fyfyrwyr wrth ddewis dod i Fangor i astudio.

Mi all Ysgol y Gymraeg frolio am safon yr addysg y maent yn ei ddarparu ac mae hyn yn ffactor fawr wrth ddenu myfyrwyr i ddod i astudio yma ym Mangor. Mae'r darlithwyr wir yn arbenigwyr yn eu maesydd ac hefyd yn actif wrth gyhoeddi gweithiau newydd sydd yn lledu enw Prifysgol Bangor. Yn sicr roedd yn bwysig i mi wrth ddewis ddod i Fangor gan fy mod wedi clywed am nifer o'r darlithwyr oherwydd eu ymchwil neu gweithiau. Ofnaf felly y byddai lleihau nifer y staff yn arwain at gwmp yn safon yr addysg ac yr arbenigedd sydd yn cael ei gynnig yma. Credaf hefyd y byddai cwmp yn apêl yr Ysgol at ddarpar fyfyrwyr yn y dyfodol gan mai arbenigedd y darlithwyr sydd yn denu nifer.

Prifysgol Bangor sy'n arwain y byd mewn ymchwil yn y Gymraeg. Wrth i'r Cynulliad anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 byddai lleihau niferoedd y staff yn gam mawr yn ôl ac yn bechod mawr. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd i amddiffyn y Gymraeg.

I gloi felly, os mai bwriad y Brifysgol yw tyfu'r Ysgol Gymraeg i gynnwys Astudiaethau Celtaidd, onid ceisio cadw'r niferoedd staff sydd angen?

Yn gywir,

██████████

Atodiad 5

Teimlaf fod y bygythiad yn un hollol gwarthus. Dim ond ysgol fechan yw Ysgol y Gymraeg ond y mae'r hyn sydd yn cael ei chynnig ganddi yn anferthol, a hynny trwy cyfeloedd a'r holl ddarlithwyr. Gyda fwy o bwyslais gan y Llywodraeth ar addysg Gymraeg ar gyfer y dyfodol y mae'n warthus bod hyn yn cael ei hystyried. Rhan allweddol o'r brifysgol ydynt. Rhaid ei hamddiffyn.



Atodiad 6

Byddai colli aelod o staff ar lefel athro yn anochel niweidiol i'r Adran, nid yn unig o ran morâl staff a myfyrwyr ond hefyd o ran gallu yr Adran i gynnig maes addysgu eang a chystadleuol. Y mae'r Gymraeg yn bwnc eithriadol o eang gan gyfuno, hanes, ieithyddiaeth, theorïau llenyddol, llenyddiaeth a gwaith creadigol ymarferol a mwy ac y mae'n rhaid wrth staff profiadol ac eang eu harbenigedd i allu cyflwyno'r pwnc ar lefel addysg prifysgol. Heb gadw'r staff presennol byddai'n amhosibl gallu cynnig darlun mor llawn o'r pwnc. Os mai bwriad y brifysgol yw cael yr Adran yn un Geltaidd mewn mwy nag enw yn unig dyma'r adeg fwyaf annoeth i fod yn torri staff gan fod pob agwedd o Astudiaethau Celtaidd— o'r hynafol i'r modern— yn apelio at ddarpar astudwyr a heb arbenigedd amrywiol pob aelod o staff byddai gallu'r Adran i gynnig yr arlwy eang hwn yn cael ei niweidio'n enbyd.

Mae Adran y Gymraeg yma mewn safle tra manteisiol ar hyn o bryd o'i chymharu gyda adrannau Cymraeg eraill drwy Gymru gan nad ydi hi, yn ymddangosiadol i'r cyhoedd beth bynnag, wedi dioddef o dan effaith toriadau i'r fath raddau a rhai eraill, dyweder Aberystwyth. O ran safbwynt denu myfyrwyr y dyfodol felly— ar lefel is ac ôl-raddedig— byddai torri aelod o staff yn tanseilio'r safle hwn a thrwy hynny yn tanseilio ymdrechion yr adran a'r brifysgol yn ehangach i gael nifer dderbyniol o fyfyrwyr.

Caiff yr Adran ei chydabod fel yr un orau i astudio Cymraeg ynddi a hynny am fod yna ystod eang o arbenigedd, maes llafur cynhwysfawr a digon o ddarlithwyr i sicrhau cyswllt un i un yn aml. Fel myfyriwr ôl-raddedig gallwn fod wedi mynd i astudio fy mhwnc dewisol mewn nifer o brifysgolion— a mynd a fy nghyllid o ffynhonnell allanol gyda mi— ond dewisais aros ym Mangor a hynny am fy mod yn hapus yma, am fy mod yn dra sicr fod yr arbenigedd eang ar gael yma ac am y gallwn gael cefnogaeth ar gyfer fy meysydd diddordeb fel arall (ysgrifennu creadigol er enghraifft) gan aelodau o staff boed nhw'n diwtoriaid personol neu beidio.

Byddai torri aelod o staff yn niweidio enw da ac lefel o ewylllys da tuag at y brifysgol yn ogystal a hynny'n rhannol am fod Adran y Gymraeg mewn safle pwysig o ran cefnogi a hybu gweithgarwch sydd yn dod a chlod i'r adran a'r brifysgol yn ehangach. O gysidro pa mor gynhyrchiol yw'r adran boed hynny'n gyhoeddi academaidd neu greadigol a hefyd o ran cyfraniad diwylliannol nifer o fyfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr byddai tynnu aelod o staff yn cael dylanwad andwyol ar yr ymdrechion hyn.



Atodiad 7

Hoffwn ddechrau drwy nodi fy mod yn llawn werthfawrogi fod Prifysgol Bangor mewn sefyllfa ariannol anodd ar hyn o bryd, fy mod yn deall yn llwyr fod penderfyniadau anodd yn ei hwynebu, a bod angen gwneud toriadau.

Serch hynny, teimlaf yn gryf iawn fod y cynllun i gael gwared ar un swydd lawn amser ar lefel athro yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn un annheg i staff a myfyrwyr, ac yn gwbl wrthgynhyrchiol o ran yr hyn y mae'r Brifysgol yn ceisio'i gyflawni. Bydd yn cael effaith nodedig o negyddol ar yr Ysgol hon yn benodol a'r ddisgyblaeth academiaidd yn ei chyfanrwydd.

Nodir ym mhwynt 1.4 yr Achos Busnes dros Newid fod yr opsiwn o wneud dim wedi'i wrthod gan y byddai'n arwain at yr angen i wneud toriadau mewn ysgolion eraill. Rwy'n deall y safbwynt hwn yn llwyr, ac ni fyddwn am i Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd gael ei thrin yn fwy ffafriol nag ysgolion academiaidd eraill y Brifysgol. Ond mewn gwirionedd, byddai cael gwared ar un swydd o'r Ysgol hon yn golygu ei thrin yn anffafriol, a dangos ffafriaeth at ysgolion eraill, a hynny am sawl rheswm.

Yn gyntaf, byddai cael gwared ar un swydd yn golygu na fyddai ond pedwar aelod staff llawn amser ar ôl. Mae hwnnw yn rhif eithriadol o fychan, ac mae'n anodd dychmygu sut y gallai unrhyw ysgol academiaidd weithredu'n effeithiol ac effeithlon gyda chyn lleied o staff. Pe torrid swyddi mewn ysgolion eraill, gallai'r rhan fwyaf ysgolion hynny barhau i weithredu o ddydd i ddydd heb gymaint â hynny o drafferth, ond mewn ysgol fel hon, lle mae nifer y staff eisoes yn isel iawn, gallai torri un swydd gael effaith andwyol arni.

Yn ogystal, mae'r ysgol hon wedi newid yn ddiweddar o fod yn Ysgol y Gymraeg i fod yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Golyga hyn gynyddu'r ddarpariaeth, felly byddai'n gwbl annheg, onid afresymol, disgwyl i'r Ysgol wneud mwy o waith gyda llai o staff tra bod ysgolion eraill ond yn gorfod gwneud yr un gwaith ag o'r blaen gydag un aelod o staff yn llai. Dylem fod yn trafod recriwtio rhagor o staff er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a ddaw wrth gynyddu'r ddarpariaeth. Prif gystadleuydd Bangor ym maes Astudiaethau Celtaidd yw Prifysgol Aberystwyth, ac mae gan yr Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yno naw aelod staff. Os oes gan Brifysgol Aberystwyth draddodiad hirach o ddysgu Astudiaethau Celtaidd, a mwy o staff, ni fyddai unrhyw gymhelliad i ddarpar fyfyrwr ddewis dod i Fangor os bydd yma lai o staff, ac felly lai o arbenigedd ac amrywiaeth yn y pynciau a'r meysydd a ddysgir, nag yn Aberystwyth.

Hefyd, byddai colli un swydd yn golygu y byddai'r darlithydd a gollai ei swydd mewn sefyllfa anos na darlithydd a fyddai wedi colli ei swydd mewn ysgol academiaidd arall. Pe torrid swyddi mewn ysgol academiaidd arall, gallai'r staff a gollai eu swyddi symud i ddysgu'r un pwnc mewn prifysgol arall yng Nghymru neu yn unrhyw le arall yn y byd, bron. Nid yw hynny'n wir yn achos darlithwyr Cymraeg. Mae'r ddisgyblaeth wedi'i chyfyngu i dair prifysgol arall yng Nghymru, a chan fod y sector addysg uwch ar draws y wlad yn wynebu'r un heriau, mae'n annhebygol y gallai darlithydd a gollai'i swydd ym Mangor ddod o hyd i swydd debyg yn unrhyw le arall. Golyga hyn nad colli darlithydd o Brifysgol Bangor yn unig y byddem, ond **eu colli o'r byd academiaidd yn llwyr**. Dyna werth blynyddoedd o

ymchwil academiaidd, beirniadaethau eisteddfodol, darlithoedd cyhoeddus, ymddangosiadau ar y cyfryngau a gweithiau creadigol yn diflannu mewn eiliad. Mae'r rhain yn feysydd y mae darlithwyr Cymraeg Bangor wedi bod yn eithriadol o gynhyrchiol ynddynt dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae eu cyflawniadau ynddynt wedi dod â bri ac enw da i'r Ysgol a'r Brifysgol. Pwynt pwysig arall yw bod y gwaith y maent yn ei gyflawni o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, a bod mwy o bobl o'r tu allan i academia yn dod i gysylltiad â gweithgarwch yr Ysgol hon nag odid yr un ysgol arall ym Mhrifysgol Bangor. Pe ceid gwared ag un swydd yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, nid dim ond yr Ysgol, y staff, y myfyrwyr a'r Brifysgol fyddai'n dioddef, ond diwylliant cenedl gyfan.

Nodir ym mhwynt 3 adran 1.2 fod y gymhareb staff/myfyrwyr yn uchel o gymharu ag ysgolion eraill. Gan fod Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn ysgol lai, nid yw hynny'n syndod o gwbl, ac ni ddylid defnyddio dull mor arwynebol o fesur gwerth aelodau staff mewn ysgolion gwahanol. Yn wir, gellid dadlau fod cymhareb staff/myfyrwyr uchel wedi bod o fudd annhraethol i fyfyrwyr Ysgol y Gymraeg.

Wrth fynd heibio, hoffwn nodi fod darpar fyfyrwyr, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Ysgol y Gymraeg, Bangor, rhynddynt, wedi ennill 12 o brif wobrau llenyddol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ystod y deng mlynedd diwethaf; 40% o'r cwbl. Mae hon yn gamp aruthrol i ysgol fach mewn cystadleuthau sy'n agored i unrhyw un dan 25 oed, ac nid myfyrwyr Cymraeg yn unig. Mae'n dangos sut y mae diwylliant Ysgol y Gymraeg a chefnogaeth darlithwyr unigol yn cymell myfyrwyr i greu a llwyddo.

Mae'r Ysgol yn aml a chyson yn cael y marciau gorau posib yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, sy'n profi fod y myfyrwyr wrth eu bodd gyda chyrsgiau, darlithwyr a diwylliant yr Ysgol, ac mae'r ffaith fod y darlithwyr ar gael ac yn barod i wrando a thrafod yn rhan anhepgor o'r hyn sy'n gwneud yr Ysgol yn un mor boblogaidd. Pe ceid gwared ag un swydd, ni fyddai gan y darlithwyr gymaint o amser i'w dreulio yn cefnogi ac yn rhoi sylw i fyfyrwyr unigol, byddai'r myfyrwyr wedyn yn teimlo eu bod yn cael eu hesgeuluso a'u hanwybyddu, byddai'r marciau yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr yn disgyn, yr Ysgol yn colli poblogrwydd a byddai llai o bobl yn dod i astudio yma. Gallai'r ymarferiad hwn, sy'n amcanu at arbed ariad, gostio'n ddrud yn y pen draw. Gan fod newidiadau'n cael eu gwneud i'r cwrs Lefel A Cymraeg gyda'r bwriad o ddenu rhagor o fyfyrwyr i'w astudio, a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n dra thebygol y bydd y galw am gyrsiau Cymraeg mewn prifysgolion yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf, ond gyda llai o staff ni fyddai Bangor yn gallu ateb y galw hwnnw, a bydd y myfyrwyr ychwanegol yn mynd i astudio ym mhrifysgolion eraill Cymru.

Mae Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn eithriadol boblogaidd ymysg ei myfyrwyr, ond buan iawn y byddai hynny'n newid pe collid un aelod staff. Ar hyn o bryd, mae'r ystod o fodiwlau a gynigir yn eang iawn ond byddai'n rhaid torri amryw ohonynt pe na bai yn yr Ysgol ddigon o staff i'w cynnal. Byddai hynny, unwaith eto, yn arwain at leihad ym modlonrwydd myfyrwyr, byddai'r Ysgol yn colli'r enw da y mae wedi gweithio mor galed i'w ennill.

Hefyd, byddai myfyrwyr ymchwil mewn sefyllfa nodedig o anodd gan y gallent fod yn ymchwilio i bwnc lle mai dim ond un darlithydd sy'n meddu ar yr arbenigedd i'w cyfarwyddo. Gallai colli aelod staff olygu colli myfyrwyr hefyd, a byddai darpar ymchwilwyr yn dewis mynd i brifysgolion eraill lle mae'r arbenigedd i'w chael. Byddai hynny'n gryn golled oherwydd mae nifer fawr o fyfyrwyr ymchwil dros y blynyddoedd diwethaf wedi dod i Fangor i ddilyn cyrsiau MA a PhD ar ôl ennill eu gradd gyntaf mewn sefydliad arall gan eu bod yn gwybod mai gan ddarlithwyr Bangor y mae'r arbenigedd, y wybodaeth a'r gallu i'w cyfarwyddo orau.

Unwaith eto, gwelwn mai colli yn hytrach nag arbed arian fyddai canlyniad cael gwared ar staff.

Nid yw cael gwared ar staff er mwyn arbed arian yn beth afresymol, ond mae'n gynllun cwbl anaddas yng nghyd-destun Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Bangor. O dorri un swydd, creid sefyllfa gyfan gwbl anghynladwy lle na allai'r staff gyflawni eu holl ddyletswyddau gan na fyddai digon o ysgwyddau dan y baich. Y ddau lwybr tebygol yw y byddai un elfen o'u gweithgarwch (boed yn ddysgu, ymchwil, gwaith gweinyddol, gwaith cefnogi myfyrwyr, cyfarwyddo ymchwil, etc.) yn cael ei esgeuluso, neu y byddai darpariaeth yr Ysgol yn cael ei gyfyngu neu ei gwtogi y tu hwnt i bob rheswm, a'r Ysgol o ganlyniad yn anneniadol i ddarpar fyfyrwyr, ac yn lle diflas, cyfyng ei orwelion i'r myfyrwyr presennol.

Petai hon yn ysgol fwy, gyda digon o staff i ysgwyddo beichiau'r darlithydd a fyddai'n colli'i swydd, byddai'n anodd dadlau yn erbyn colli un swydd. Ond gan fod hon yn ysgol fechan iawn eisoes, byddai torri dim ond un aelod o staff yn cael effaith ddinistriol ar ar y staff, y myfyrwyr, y Brifysgol a diwylliant Cymru gyfan.



Atodiad 8

Annwyl [REDACTED]

Rwyf yn ysgrifennu yn sydyn ar bwnc "achos busnes dros newid".

Nid myfyrwraig Bangor "go iawn" wyf (jesd yma am y flwyddyn — o fis Medi diwethaf tan mis Awst — efo cynllun cyfnewid rhwng Bangor a'r Adran Celtaidd yn Harvard) felly rhaid imi ddechrau gan ddeud na ddylai fy llais yn cael ei bwysleisio; mae yna lot o bobl o gwmpas efo mwy o horse in the race. Ond roeddwn isio danfon nodyn byr yn dilyn dy ymweld i'n seminar heddiw — efallai bydd safbwynt allanol yn ddefnyddiol i chi, efallai na fydd, ond dyna fo.

Mi ddeuthum i Fangor yn benodol, (yn lle adrannau Celtaidd tebyg yn Aberystwyth, Caerdydd, Caergrawnt, a.y.b.) yn bennaf o achos cymuned o ysgolheigion sydd yma. Actually mae'r rhan fwyaf o f'ymchwil yn cymryd lle yn llyfrgelloedd eraill (rwyf yn teithio yn weddol aml lawr i Aber i edrych ar y llawysgrifau!) ond roeddwn i'n dewis Bangor fel canolfan er mwyn cymryd mantais o wahanol arbenigeddau yr athrawon yma. Yn fy marn i, mae Ysgol y Gymraeg ym Mangor yn cynnig rhywbeth hollol unigryw, nid yn unig yn y Prifysgol, ond yng Nghymru cyfan. Mae'r peth sydd yn bodoli yma — sef cymuned o ysgolheigion sydd yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, a sydd yn gallu cyffwrdd â phob agwedd maes y Gymraeg y rhyngddynt — yn rhywbeth prin iawn, ac arbennig. Hefyd, fel rhywun sydd yn gwneud gradd yn "Astudiaethau Celtaidd" (ac sydd wedi ei gwneud fel gradd israddedig), rwyf yn methu deall sut bydd y Prifysgol dablygu gradd newydd (a chadw safon uchel ei gradd Cymraeg presennol) ar yr un pryd â cholli aelod o'i staff.

Gobeithio bydd hwnna'n ddefnyddiol ichdi, a plis teimlo yn rydd i gysylltu â fi os gallaf egluro dim byd!

Cofion gorau,

[REDACTED]

Atodiad 9

Annwyl [REDACTED]

Rôn i isio mynegi fy mhryder ynglŷn â'r posibilrwydd o derfyniad un o athrawon Ysgol y Gymraeg. Dwi ddim yn meddwl bod hi'n deg inni, y myfyrwyr, ac allwn ni ddim fforddio colli un o'r arbennigwyr hyn. Be sy'n gallu bod ei neud ynglŷn â'r sefyllfa trychinebus 'ma? 'Mond dechrau ydwi ond dwi'n gallu gweld byddai'n golled anferth i golli hyd yn oed un ohonynt. Gan fy mod yn talu cymaint o bres a fy mod wedi teithio o ochr arall y byd i gael yr addysg benodol iawn 'ma, dwi'n eithaf siŵr fy mod yn haeddu cael yr addysg orau am y pris.

Diolch a chofion,

[REDACTED]

Atodiad 10

Annwyl [REDACTED]

Yr wyf yn ysgrifennu atoch chi heddiw er mwyn pwysleisio pwysigrwydd Ysgol y Gymraeg ac i fynegi fy mhryderon am y toriadau fydd yr ysgol hon yn ei hwynebu.

Mae Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor yn un anhygoel ac mae'r diolch hynny i'r holl ddarlithwyr. Mae ystod y modiwlau sydd ar gael yn un eang ac mae arbenigedd pob darlithydd yn cyflwyno rhywbeth gwahanol i'r cwrs. Ceir ddarlithwyr sydd yn arbenigo yn darddiad yr iaith Gymraeg, i Dafydd ap Gwilym hyd at barddoniaeth fodern, ysgrifennu creadigol a hyd yn oed llenyddiaeth Cymraeg America. Byddai colli un o'r darlithwyr gwerthfawr yma yn golled enfawr i'r ysgol yn ogystal â'r brifysgol gyfan. Mae'r gwaith mae'r darlithwyr yma yn eu cyflawni o fewn a thu allan i'r brifysgol yn hynod bwysig. Yn wir, mae'r darlithwyr yma ar y blaen o ran cyhoeddi, ac felly colled llwyr buasai colli un ohonynt.

Rwy'n pryderu am yr ysgol, ac am ddyfodol y cwrs Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Byddai gwaredu ar un darlithydd yn meddwl byddwn yn colli arbenigedd rhywun, ac yn y pendraw yn cael effaith ar faint o fodiwlau fydd ar gael. Mae ysgol y Gymraeg prifysgol Bangor yn un aruchel, sydd yn derbyn parch gan nifer ar hyd a lled Cymru, heb os y byd. Sut effaith buasai'r toriadau yma yn cael ar ddelwedd y Brifysgol? Rhan bwysig o ysgol y Gymraeg yw'r gymuned glos a chyfeillgar sydd yma. Mae pob un aelod o staff yn barod i siarad ac i helpu gydag unrhyw broblem ac mae hynny'n rhywbeth unigryw i'r ysgol. Ceir ofal bugeiliol digymar yma, a phoenaf y buasai'r siglad yma yn cael effaith negyddol ar gymuned yr ysgol.

Felly, hoffaf i chi ystyried pwysigrwydd pob un aelod o staff ysgol y Gymraeg, y gymuned â'r safon aruchel o ddysgu sydd gan yr ysgol. Buasai colli un aelod o staff yn dorcalonnus i ni fel myfyrwyr ac i'r ysgol.

Yr eiddoch yn gywir,

[REDACTED]

Mike Hedges AC

Atodiad 11

Annwyl [REDACTED]

Ysgrifennaf atoch gyda fy mhryderon am y toriadau diweddar. Credaf ei bod yn annerbyniol fod y toriadau yn cael effaith ar yr adran Gymraeg. Adran fach ond hanfodol bwysig yng Nghymru i'r iaith Gymraeg. Rwy'n cwestiynu os oes unrhyw fath o ystyriaeth wedi bod am yr iaith o gwbl gyda'r toriadau.


Mae pob aelod o staff yn yr adran mor bwysig i ni. Gyda pob un ohonyn nhw'n mynegi ac yn dysgu'n wahanol ac yn dysgu pethau newydd i ni. Dwi ddim yn gwybod beth byddwn yn ei wneud os byddai un o'r darlithwyr yma'n gorfod ymadael â'r adran.

Yn aml rwy'n meddwl am y cynllun yma gyda'r lansiad gan y Llywodraeth o gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050, mewn meddwl. Sut bod hyn yn bosib o gwbl pan nad yw'r adrannau Cymraeg yn un o'r prifysgolion gorau ym Nghymru a Phrydain yn cael ei gymryd o ddifrif? Nid yw hyn yn dangos pa mor bwysig ydi'r iaith i ni ac y parhad mewn addysg uwch o safon uchel.

Diolch

[REDACTED]

Atodiad 12

Annwyl 

Fel myfyrwyr prifysgol yn Ysgol y Gymraeg, yr ydym i gyd yn siomedig iawn gan y penderfyniad i gael gwared ar un o'r darlithwyr. Mae'r darlithwyr hyn yn rhyfeddol ac yn ein hysbrydoli i ddysgu. Byddai unrhyw un ohonynt yn golled enfawr i'r ysgol ac, yn bwysicach fyth, i'n haddysg. Gobeithiaf eich bod yn gallu gwneud rhywbeth am yr achos hwn ac yr wyf yn siwr eich bod wedi derbyn llawer iawn o ebyst yn cwyno am y penderfyniad.

Diolch yn fawr i chi am dreulio eich amser prin yn darllen yr ebost hwn,



Atodiad 13

Nid gor-ddweud ydw i pan rydw i'n honni na faswn i'n medru graddio'r flwyddyn hon pe na fyddai hi am gefnogaeth ddihafal Ysgol y Gymraeg. Am resymau iechyd, nid ydw i'n medru bod yn bresennol yn y darlithoedd ar hyn o bryd, ond mae bod mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r darlithwyr yn golygu fy mod i'n medru gwneud y gwaith adref heb na straen na phwysau. Maent yn fwy na pharod i wyro bob ffordd i alluogi nad ydy'r gwaith yn mynd yn fwrn arnaf, ac ar fwy nag un achlysur, wedi cynnig dod i fy nghartref i fynd dros y gwaith gyda mi. Ymhellach, nid oeddwn i'n medru bod yn bresennol yn ystod cyfnod yr arholiadau, ond diddymwyd fy mhryderon yn llwyr pan gefais fis yn ychwanegol i wella. Roedd hyn yn galluogi amser i dderbyn triniaethau byrdymor a fyddai'n galluogi fy mod i'n medru ysgrifennu o fewn y mis. Yn y cyfamser, bu'r darlithwyr mewn cysylltiad rheolaidd gyda mi drachefn, a hyd yn oed pan oeddwn i'n barod i ddechrau'r arholiad, nid oedd pwysau o fath yn y byd arnaf i'w gwblhau ar y diwrnod hwnnw. Yn ategol, mae'r darlithwyr yn llwyddo i feithrin cyfeillgarwch agos gyda'u myfyrwyr, a olygir fy mod i bellach yn gwybod bod gen i rwydd hant i gnocio ar ddrysau eu swyddfeydd pan fyddaf mewn cyfyngder. Gwn y caf yno gefnogaeth a gofal sydd yn ddigyffelyb, ac y byddaf yn gadael gyda thawelwch meddwl hollol. Byddai colli aelod o'r tîm yn golygu bwlch yn y rhwydwaith cefnogol hwn, a heriaf y byddai'r bwlch hwn yn arwain anghytgord llwyr o fewn yr ysgol. Nid colli swydd yn unig all ddeillio o hyn; mae'r effaith yn seismig a phellgyrhaeddol. Ac nid gyrfa un all droi'n chwilfriw, ond gall fy siawns innau o raddio droi'n chwilfriw o'r herwydd, hefyd.

Yn gywir iawn,

████████████████████

Atodiad 14

Yn y ddogfen hon bwriedir mynegi fy ngwrthwynebiad llwyr i'r Achos Busnes a nodir uchod. Agoraf yr ymateb hwn drwy gyflwyno fy hun. A minnau wedi llwyddo i ennill gradd BA dosbarth cyntaf yn y Gymraeg yn haf 2018, rwyf bellach wedi dechrau ar radd MA rhan amser mewn Cymraeg, gan astudio Cyfieithu yn benodol ac yn sicr mae gwybodaeth eang y darlithwyr yn yr Ysgol yn fuddiol tu hwnt i mi yn cwblhau fy astudiaethau. Yn haf 2018, daeth penderfyniad anodd i'm rhan. Roeddwn eisoes wedi cael cynnig swydd fel Cyfieithydd, sy'n gynnig hynod brin yn y rhan hon o'r wlad, a oedd yn gwrthdaro â'm bryd i astudio MA yn y Gymraeg gan yr oeddwn o'r gred ar y pryd na allwn wneud y ddau. Pwysleisiaf mai drwy gefnogaeth holl staff Ysgol y Gymraeg yr ymgymerais â'r ddau, y swydd a'r cwrs mistr. Pe na bai staff yr Ysgol gystal, ni fyddwn wedi meddwl ddwywaith am adael addysg a mynd i'r byd gwaith. Ond oherwydd y profiad gwerth chweil a gefais yng nghwmni bob un ohonynt wrth wneud BA, gwyddwn y byddwn yn llwyddo i barhau â'm haddysg a mynd i'r byd gwaith dan eu cyfarwyddyd. Heb eu cefnogaeth, yn academiaidd a bugeiliol, ni fyddwn yn y sefyllfa hon heddiw a manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt am sicrhau y cefais ddod yn ôl i'r Ysgol groesawgar a chlòs hon i gael rhagor o fudd o'u harbenigedd a'u gwybodaeth. Dim ond drwy sefyll ar ysgwyddau cewri staff Ysgol y Gymraeg Bangor yr wyf yn y sefyllfa ffodus hon heddiw.

Cyn craffu ar rannau penodol o'r Achos Busnes, hoffwn ddwyn at eich sylw y diffygion gramadegol elfennol a geir yn y ddogfen hon. Priodol yn y fan hon fyddai cynnig enghreifftiau o'r rhai ohonynt sydd ar dudalen flaen y ddogfen yn unig:

1. 'Colli un swydd gyfystyr â llawn amser ar lefel Athro a chynyddu y ddarpariaeth yn y maes Astudiaethau Celtaidd' → a chynyddu
2. 'Yn 2018 penderfynwyd ail-sefydlu'r Ysgol fel Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, a thrwy hynny:' → a thrwy hynny
3. 'sicrhau bod y Brifysgol mewn sefyllfa dda i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi'r nifer o siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050 trwy gael uned academiaidd weladwy sy'n ymroddedig i gynnig, hyrwyddo a chyflwyno Rhaglenni Gradd Cymraeg ac sydd hefyd yn gallu cydweithio â chydweithwyr mewnol....' → heb newid yr I prif lythyren awtomatig i i fach a chydweithio â
4. '...rhaglenni sy'n arwain at gymhwyster addysg uwch a rhaglenni byr un neu ddwy semester' → byrion a ddau

Dengys yr holl gamgymeriadau hyn ddiystyrwch, amarch a snobyddiaeth tuag at y Gymraeg. A'r coleg o bosib wedi'i lleoli yn ardal fwyaf Cymreig Cymru, mae hyn yn gwbl gywilyddus. Gall y coleg fanteisio ar yr agwedd Gymreig hon at amryw o ddibenion, ond yn amlwg mae uwch reolwyr y Brifysgol yn llethu hynny â'u gweledigaethau Prydeinig a'u hanwybodaeth o famiaith a diwylliant Cymru. Petai'r Gymraeg yn y ddogfen hon yn lân, clir a grymus fel y disgwylir gan coleg Cymreig fel hwn, byddai'n llawer haws rhoi mwy o sylw iddi. Ond yn anffodus o ganlyniad i'r amarch pur a ddengys yma, amhosibl yw ystyried yr Achos Busnes hwn mewn difrif.

Af ymlaen yn awr i ganolbwyntio ar rannau penodol o'r Achos Busnes. Tynnaf at eich sylw y frawddeg gyntaf yn Adran 1 sy'n egluro'r newid arfaethedig i Ysgol y Gymraeg, sef 'Colli un swydd gyfystyr â llawn amser ar lefel Athro a cynyddu y ddarpariaeth yn y maes Astudiaethau Celtaidd'. Dyma frawddeg agoriadol sy'n gosod naw's pathetig yr Achos Busnes hwn. Mewn gair, mae'n frawddeg sy'n gwrthdweud ei hun yn llwyr. Ar un ochr dywedir y collir un Athro, penderfyniad a fyddai'n cael effaith trychinebus ar fyfyrwyr a'r modiwlau a gynigir yn Ysgol y Gymraeg. Ond ar y llaw arall nodir bod angen cynyddu'r ddarpariaeth yn y maes Astudiaethau Celtaidd – nid oes angen llawer o synnwyr cyffredin i sylweddoli y byddai colli aelod o staff, boed hynny ar lefel Athro ai peidio, yn *lleihau*’r ddarpariaeth, yn hytrach na’i chynyddu.

Gan barhau i graffu ar Adran 1, nodir bod 'rhywfaint o alw am Astudiaethau Celtaidd o'r tu allan i'r DU' a hynny yn ôl ystadegyn ar sail un flwyddyn (2016/17) gan HESA. Mewn gwirionedd, mae cynnig yr ystadegyn hwn yn chwerthinllyd ac yn ychwanegu dim i'r Achos Busnes, fel y bwriedir. Yn hytrach, mae'n lleihau ei arwyddocâd ymhellach gan mai "tystiolaeth" o un flwyddyn yn unig a gynigir. Er mwyn cyflwyno Achos Busnes credadwy mae angen cynnig sawl ystadegyn i ddarbwylllo'r darlennydd. Yn sicr, mae'r diffyg tystiolaeth ar ffurf ystadegau yn fethiant sylweddol yn y ddogfen dan sylw. Yn ogystal, dylid cynnwys dolen neu gyfeiriad i'r ystadegyn gan HESA er mwyn i'r darlennydd gael ymchwilio i hyn yn bersonol – methiant arall. Yn ogystal, mae'r frawddeg a ddyfynnir uchod yn cadarnhau bod y Brifysgol hon yn gweld mwy o werth mewn myfyrwyr tramor, yn hytrach na darparu addysg o safon uchel i Gymry Cymraeg, lleol, galluog sydd eisiau ffynnu yn yr ardal hon.

I ategu at hyn, yn Adran 1 dywedir bod 'lleihau nifer y staff o 1 ar lefel Athro yn seiliedig ar ddadansoddiad o gymarebau staff / myfyrwyr (sy'n isel o gymharu â meysydd pwnc eraill yn y Brifysgol)'. Dyma un o'r brawddegau sy'n fy siomi fwyaf yn yr Achos Busnes hwn a hynny oherwydd ei bod yn gwbl annheg cymharu niferoedd ysgolion, waeth pa ysgol sydd dan sylw. Yn hytrach, dylid cymharu cyfraddau llwyddo a bodlondeb myfyrwyr gwahanol ysgolion a gallaf warantu y byddai'r rheiny yn eithriadol o uchel yn achos Ysgol y Gymraeg o'u cymharu ag ysgolion eraill, llai cartrefol a chroesawgar. Rhaid cofio bod bodlondeb myfyrwyr yn hynod bwysig er mwyn cynnal cyfraddau dargadwedd uchel. Heb amheuaeth, Ysgol y Gymraeg yw un o'r ysgolion hapusaf a mwyaf llwyddiannus Prifysgol Bangor a byddai lleihau'r nifer o staff yno yn chwalu bodlondeb, tegwch a llwyddiant myfyrwyr yn ogystal â staff. Pwysleisiaf petai'r Ysgol yn colli darlithydd, na fyddai modd wedi hynny i'r staff sy'n weddill gael cyfnodau sabothol i wneud gwaith ymchwil a chyhoeddi eu gweithiau. Yn sicr byddai hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar fyfyrwyr oherwydd eu bod yn dibynnu ar ymchwil cyfoes ac amserol y staff. I gefnogi hyn, byddai straen a roddir ar y staff sy'n weddill yn aruthrol ac annheg.

Yn Adran 2 gwelir diffyg manylder a sylw yr awduron a'r rheiny sy'n gyfrifol am yr Achos Busnes hwn. Tynnaf at eich sylw bod rhan helaeth o 2.3 wedi'i gopïo o 2.1 sy'n brawf i mi mai dim ond tic yn y bocsy yw'r ymgynghoriad hwn – agwedd gwbl anfoesol tuag at rheiny yr effeithir ganddo.

Pe byddai Ysgol y Gymraeg yn colli un aelod o staff, gallaf eich sicrhau y byddai hynny yn rhoi pwnc mor eang a chyfoes â'r Gymraeg mewn safle ddifrifol wael. O'm profiad uniongyrchol i yn yr ysgol dan sylw, mae pob darlithydd yn cynnig amrywiaeth o arbenigedd gwahanol i'r myfyrwyr, sy'n caniatáu'r ystod eang o fodiwlau a gynigir fel rhan o'r cwrs. Bu i'r cwbl ohonynt lywio ac ystumio fy llwyddiant wrth wneud BA, ac yn yr un modd yn fy mhrofiad o wneud MA ers fis Medi. Heb os nac oni bai, byddai colli aelod o staff yn cyfyngu'r ddarpariaeth yn sylweddol, yn hytrach na'i chyfoethogi.

I gloi, felly, hoffwn bwysleisio fy mod wedi'm syfrdanu ar agwedd wrth-Gymreig y Brifysgol hon. Wrth feddwl am ein cyndeidiau, y chwarelwyr Cymraeg tlawd hynny, a aberthodd lawer er mwyn codi'r coleg hwn i roi dyfodol gwell i'w plant, mae'r Achos Busnes hwn yn fy ffyrnigo. Mae'n gywilydd ar y coleg am ystyried tlodi ac amddifadu myfyrwyr Cymraeg yn y ffordd hon er mwyn gwneud elw ariannol ac i apelio at fyfyrwyr tramor. Hoffwn ddirwyn yr ymateb hwn i ben drwy gynnig dyfyniad gan Albert Einstein i chi gael cnoi cil arno:

**'Not everything that can be counted counts,
and not everything that counts can be counted'.**

Diolch



Atodiad 15

Annwyl [REDACTED]

Wedi imi ddarllen cynlluniau'r Brifysgol ynglŷn â gostwng y nifer o ddarlithwyr yn Ysgol y Gymraeg, roeddwn yn siomedig. Credaf y bydd colled fawr o weld arbenigedd unrhyw un o'r athrawon yn diflannu. Byddai profiad myfyriwr yn syrffedu o ganlyniad. Credaf hefyd y byddai cadw'r nifer o ddarlithwyr yn synhwyrol er mwyn addysgu'r myfyrwyr ychwanegol y mae'r Brifysgol yn anelu at ddenu. Ar ben hynny, mae gan y darlithwyr oriau hir yn barod. Byddai gostwng eu niferoedd yn ychwanegu mwy o bwysau arnynt.

Gobeithiaf glywed gennych ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau.

Cofion
[REDACTED]

Atodiad 16

Annwyl [REDACTED]

Yn sgil y newydd fod bwriad i dorri swydd unigolyn â theitl Athro o Adran y Gymraeg teimlwn fod angen a bod yn rhaid imi gysylltu â thi.

Daeth y newydd â siom enfawr i'm rhan gan imi astudio'n is-raddedig yn ogystal â'n ôl-raddedig yn yr adran.

Yn gyntaf, hoffwn fynegi'r parch sydd gennyf tuag at bob aelod o'r Adran gan nad yn y Brifysgol yn unig y cefais gymorth a chefnogaeth ganddynt - bu imi gollu'm tad yn 2017 (mis wedi dechrau astudio'n ôl-raddedig yn wreiddiol) a bu pob un aelod o staff o gymorth imi trwy'm profedigaeth - yn cynnig cefnogaeth proffesiynol fel staff ond fel ffrindiau hefyd. Bu iddynt fod o gymorth mawr imi wrth fynd i'r afael â'r cwrs ôl-raddedig yn 2018 wedi blwyddyn yn alltud o'r Brifysgol ond ni bu terfyn i'r ohebiaeth, y cymorth a'r cyfeillgarwch yn ystod y cyfnod hwnnw - maent yn addysgwyr ac yn ffrindiau.

Yn sicr, nid oes i un aelod o staff fwy o bwysigrydd na'r gweddill - mae pob un â'i ddawn unigol â'r gallu i addysgu ystod eang o feysydd.

Yn bersonol, teimlaf fod y llu o feysydd a addysgir gan y nifer fechan o staff dawnus wedi cygoethogi'm gwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r meysydd hynny - ond, yn bersonol, yr agwedd greadigol sydd bwysicaf imi.

Dysgais i gynganeddu'n fyfyrwr is-raddedig, dysgais am y mesurau caeth a'r rhydd a'r gwahanol ffurf y medar unigolyn fynd ati i fynegi'u hun yn greadigol - erbyn hyn, rwyf ar fin cyhoeddi cyfrol o gerddi a rhyddiaith dan faner Y Stamp ac i Adran y Gymraeg a phob aelod o'r staff y mae'r diolch am hynny. Ysgrifennais y rhan helaethaf o gynnwys y gyfrol yn ngweithdai'r staff a ni fuasai cyfrol heb eu haddysg a'u harweiniad.

Fel y nodais eisoes, nid oes i un aelod o staff fwy o bwysigrydd na'r gweddill - mae pob un aelod o staff wedi bod yn rhan o'm datblygiad proffesiynol ac mi fasa hi'n biti garw gweld myfyrwyr y dyfodol yn cael eu hamddifadu o'r un cyfleoedd a gefais i, eu hamiddfadu o'r cyfle i gyd-weithio â'r staff a'u hamddifadu o'r cyfle unigryw o astudio a datblygu dan eu hadain.

Mae i pob aelod o staff yr Adran hon bwysigrwydd tu hwnt i eiriau a daw tristwch pur i'm rhan wrth sylweddoli y byddai'r Adran yn llawer toltach heb un Athro - mae hon yn adran fach â nifer fechan o staff yn addysgu degau o feysydd â'u dawn a'u harbenigedd yn disgleirio trwy'i chyfrwng. Byddai'r Brifysgol ar ei cholled o weld un o'r Athrawon yn gadael yr adran arbennig hon.

Yr ddi-ffuant,

[REDACTED]

Atodiad 17a

Annwyl [REDACTED]

Wrth ddewis pa brifysgol i astudio'r Gymraeg, yr oedd adran y Gymraeg ym Mangor yn sefyll allan oherwydd amrywiaeth y modiwlau ac arbenigedd mor amrywiol ymysg y darlithwyr. Astudiais am dair blynedd yn ysgol y Gymraeg, ac ar hyn o bryd rwyf yn gwneud cwrs meistr yn yr adran, ac heb os ni fyddwn wedi parhau â'm hastudiaethau pe na bawn i wedi cael yr amrywiaeth o fodiwlau yn ystod fy ngradd isradd. Rwyf yn derbyn cyfarfodydd gyda fy nhiwtor yn yr adran bob wythnos wrth astudio fy nghwrs meistr, ac y mae arbenigedd fy nhiwtor wedi bod yn amhrisiadwy wrth ymchwilio i fy mhwnic penodol i. O ran yr adran, teimlaf bod arbenigedd y darlithwyr yn annhebyg i unrhyw adran Gymraeg arall yng Nghymru, ac y mae hyn wedi gwneud fy mhrofiad wrth astudio yn arbennig. Byddai colli unrhyw un o'r darlithwyr yn golled enfawr i'r adran gan eu bod yn cynnig arbenigedd mewn ystod eang o feysydd, a gellir troi at unrhyw un o'r darlithwyr pan fo angen cymorth ychanwgeol ynghylch unrhyw bwnc.

Ymateb i Achos Busnes Ysgol Y Gymraeg

Mae'r ymateb hwn yn dilyn pwyntiau'r Achos Busnes

Cyn cychwyn, hoffwn ddatgan na welais erioed Achos Busnes mor arwynebol. Nid oes ynddi:

- Ffigurau.
- Nid oes ynddi wybodaeth ynghylch beth yw'r drafodaeth rhwng y Brifysgol a'r undebau, y myfyrwyr a'r staff
- Nid oes ynddi, 'dyma sut a phryd'.
- Nid oes ynddi ddim oll sy'n rhoi gwybod am statws y ddogfen.
- Ac yn bwysicach na dim, nid oes dim oll ynddi sy'n fy argyhoeddi na fyddai'r newidiadau yn amharu ar y ddarpariaeth bresenol i ni fyfyrwyr.

1:1: Mae'r frawddeg yma yn gwbl chwerthinllyd. Mae'r rhan gyntaf yn datgan fod angen colli Athro, a'r ail ran yn datgan fod angen cynyddu'r ddarpariaeth. Sut yn y byd mae disgwyl i weddill staff yr ysgol gynyddu'r ddarpariaeth efo llai o staff i gyflawni'r gwaith?

1:2 1: Hoffaf graffter yr Uwch - reolwyr (neu bwy bynnag) yn defnyddio 'sicrhau bod y Brifysgol mewn sefyllfa dda i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi'r nifer o siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050'. Ni chredaf eu bod yn malio lawer am safle na dyfodol yr iaith Gymraeg. Ond, mae defnyddio cymal fel yr uchod wrth gwrs yn gwneud iddynt edrych yn dda. Mae Ysgol y Gymraeg yn un hynod weladwy drwy Gymru benbaladr, mae'n ffaith mai ym Mangor mae'r Ysgol Gymraeg orau yng Nghymru. Mae'r staff eisoes yn 'ymroddedig i gynnig, hyrwyddo a chyflwyno Rhaglenni Gradd Cymraeg'. Ydi'r Uwch - reolwyr tybed yn ymwybodol o'r arlwy, yr addysg a'r gefnogaeth sydd eisoes ar waith yno?

2: Eto, hwylus iawn ydi defnyddio'r cymal 'bod yna gyfle i'r Brifysgol gymryd mwy o berchnogaeth o'r term "Celtaidd", sy'n adnabyddus ar draws y byd'. Does dim o'i le mewn un ai sefydlu adran 'Astudiaethau Celtaidd' o fewn y Brifysgol, neu os am i Ysgol y

Gymraeg fabwysiadu'r pwnc, yna dylent ychwanegu mwy o staff yn ogystal â chadw'r staff presennol. Ond eto, os mai dim ond 'rhywfaint o alw' sydd yna am radd o'r fath, efallai fod angen mwy o waith ymchwil, a rhoi'r syniad o'r neilltu nes daw ffeithiau i'r amlwg sy'n profi'r galw am y ddarpariaeth.

3: Cwbl anheg ydi cymharu Ysgol y Gymraeg ag ysgolion eraill, sydd â chryn dipyn mwy o fyfyrwyr. Nid doeth ydi dilyn ystadegau bob amser, gallant fod yn gamarweiniol iawn. Os am gymharu, gwell fyddai i'r Uwch - reolwyr gymharu canlyniadau graddau Ysgol y Gymraeg ag ysgolion eraill o fewn y Brifysgol. Neu gwell fyth fyddai ystyried yn ddifrifol os oes angen un ar ddeg o uwch - reolwyr a deg o uwch swyddog ym Mhrifysgol Bangor.

1:3: Mae hwn yn gymal cwbl wrth Gymreig. Lleihau modiwlau Cymraeg, er mwyn ennyn mwy o grantiau ar gyfer Astudiaethau Celtaidd – mae eu teyrngarwch i amcanion y Llywodraeth wedi llwyr ddiplannu yn y cymal yma. Mae'n ymddangos i mi, mai'r unig reswm mae'r Uwch - reolwyr yn ystyried Astudiaethau Celtaidd ydi i ennyn mwy o arian, ac y byddai'r Gymraeg yn dioddef ar draul hynny. Onid oes adlais o'r hen ddyddiau yma pan fyddai'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno i fyfyrwyr drwy'r Saesneg?

1:4: Ni allaf gredu fod Prifysgol sydd wedi ei lleoli ym Mangor, wedi hyd yn oed ystyried heb sôn am deipio Opsiwn 3 ar bapur. Sarhad o'r mwyaf.

Barn a phryderon

Ymgynghori â myfyrwyr: Teimlaf beth amheuaeth ynghylch ymgynghoriad y Brifysgol ynglŷn â'r mater, yn enwedig felly eu hymgyngoriad â myfyrwyr. Roedd amseru rhyddhau gwybodaeth am yr 'Astudiaethau Achos' eraill braidd yn rhyfedd. 18 Rhagfyr 2018 am 6 yr hwyr. Wythnos cyn y Nadolig, pan fyddai llawer o fyfyrwyr wedi mynd adref, ac o bosib ddim yn gwirio e-byst. O fewn yr e-bost hwnnw roedd brawddeg yn datgan 'Noder bod Ysgol y Gymraeg wedi'i heithrio nes ymgynghori pellach gyda Phwyllgor Gwaith y Brifysgol'. Ydwyf i gredu felly, nad oedd pecyn 'Achos Busnes' Ysgol y Gymraeg wedi ei bacio'n barsel twt bryd hynny? Sgersli! Mae angen ymgynghori yng ngwir ystyr y gair, a bod yn gwbl dryloyw. Nid tic twt mewn boc i brofi ei fod wedi'i wneud.

Darlithydd a mwy: Nid yn unig dysgu a chefnogi myfyrwyr mae darlithwyr Ysgol y Gymraeg. O fewn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, maent wedi mynychu canoedd o ddigwyddiadau y tu allan i furiau'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys eisteddfodau ar lefelau lleol a chenedlaethol, ysgolion, cymdeithasau, cynhadleddau a mwy. Drwy'r digwyddiadau hyn, mae Ysgol y Gymraeg Bangor a'r Brifysgol yn cael amlygrwydd tu hwnt o gadarnhaol. Gobeithio'n fawr fod yr Uwch - reolwyr nid yn unig yn ymwybodol o'u cyfraniad, ond hefyd yn ei werthfawrogi.

Ymchwil: Mae pob un o Athrawon Ysgol y Gymraeg, wedi gweithio'n galed a chyfrannu llawer o'u gwybodaeth, nid yn unig i ni fyfyrwyr Bangor, ond i Gymru gyfan a thu hwnt. Gweithiau poblogaidd wedi eu cyfieithu bellach mewn pedair iaith wahanol Gofynnaf i'r Uwch - reolwyr fynd i Lyfrgell Shankland i weld eu harbenigedd a'u cyfraniad.

Darpar Fyfywrwr PhD: Mae ymdriniaeth a bwriad y Brifysgol i ddi-swyddo Athro yn gwneud i unrhyw fyfyrwr (waeth beth fyddo'i faes) gwestiynnu oes pwrpas parhau â'r ymchwil.

Ymchwil: Byddai toriadau yn golygu na fyddai modd i ddarlithwyr gymryd cyfnodau sabothol i barhau a'u gwaith, a thrwy hynny gyfoethogi profiad myfyrwr. Pe digwydd hyn, buan y byddai'r Uwch - reolwyr yn cwyno am ddiffyg ymchwil.

Modiwlau: Mae'r modiwlau presenol yn benigamp, gyda rhywbeth at ddant pawb. Byddai unrhyw newid yn ei ddifetha'n llwyr. Trueni nad oes modd dychwelyd y modiwlau sgriptio, y bu i lawer ohonom eu mwynhau ac elwa ohonynt. Profwch i mi sut y byddwn yn elwa pe byddent yn lleihau'r dewis.

Toriadau

Rhaid wrth weledigaeth hir – dymor cyn ystyried unrhyw doriadau, nid rhyw 'quick fix' dros dro. Mae modd i'r Brifysgol arbed arian heb amharu dim ar brofiad myfyrwr a darlithwyr. Yn gyntaf gellir gwerthu'r tŷ a roddir i'r Is-ganghellor i fyw ynddo. Yn yr oes sydd ohoni, a'r Is ganghellor ar gyflog mor uchel, ni all y Brifysgol gyfiawnhau'r fath wariant. Dylai'r Brifysgol hefyd gwtogi'n sylweddol ar unrhyw fanteision ddaw ynglwm i'r swydd honno. Ffolineb llwyr oedd talu am gludiant y cyn Is – ganghellor, yn enwedig â phot y Brifysgol yn gwagio. Efallai pe byddai'r Uwch - reolwyr wedi bod yn fwy darbodus na fyddai angen ystyried cymaint o doriadau heddiw.

Yn ail, dylai unrhyw doriadau ddigwydd ar lefel yr Uwch - reolwyr yn gyntaf. Ni fyddai hyn yn amharu dim oll ar brofiad nac addysg myfyrwr. Ac nid yw'n deg ar weddill y gweithlu, os nad oes arbedion yn cael eu gwneud o fewn yr haen uchaf.

Cymry Cymru a'r Gymraeg

Yr oedd yna, yn eu meddyliau, weledigaethau

Am well amgylchiadau ac amgenach bywyd

I'w plant a etifeddi eu byd

Boed i'r Uwch - reolwyr barchu gweledigaethau 'Ein teidiau da o Gymru'. Yn eu cynni rhoesant i ni Brifysgol. Boed i ni ei pharchu a'i gwarchod i'r dyfodol.

A chyn iddynt ymyryd dim ag Ysgol y Gymraeg, boed iddynt gofio (neu hyd yn oed ymchwilio os nad ydynt yn gwybod) i'w hanes, ac i gyfraniad amhrisiadwy'r rhai fu, ag sydd yn parhau i ddysgu myfyrwr, a chynnal y Gymraeg a Chymreictod. Ac er mwyn gwyntyllu yr elfen amlwg o wrth Gymreictod sy'n bodoli, a does dim modd ei wadu, boed iddynt sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei pharchu a'i defnyddio ar bob lefel yn y Brifysgol.

Diolch,

████████████████████

** Gyda llaw nid oes newidiadau wedi eu gwneud i'r dyfyniad uchod.

Atodiad 17b – ychwanegiad i'r sylwadau blaenorol

Dychwelyd i addysg wnes i, yn dilyn gweithio'n llawn amser am dros ddeng mlynedd ar hugain, yn ogystal â magu teulu.

Penderfynais ddod i astudio i Ysgol y Gymraeg, Bangor, gan i fy merch hynaf, Margiad, gychwyn ar gwrs llawn amser yno yn 2013.

Tra ym Mangor, astudio o adref oedd Margiad, a minnau o ganlyniad i hynny yn cael cyfle i weld y cyfoeth addysg a'r gefnogaeth roedd hi'n ei dderbyn yno. Yn ystod dwy flynedd olaf fy ngwaith roeddwn wedi bod yn pendroni ynteu a'i dilyn cwrs Addysg neu Gymraeg fyddai orau i mi. Ond, o weld a chlywed am brofiadau Margiad yn Ysgol y Gymraeg, roedd y penderfyniad yn un hawdd. Cychwynnais y daith fel myfyriwr llawn amser fis Medi 2015, ac nid wyf wedi difaru unwaith, er ei fod yn her yn ariannol.

Roedd gennyf ddiddordeb yn y pwnc ers dyddiau mebyd, a gan i mi ymddiddori ym myd adrodd, gwyddwn y byddai'r modiwlau oedd yn cynnwys llenyddiaeth wrth fy modd. Fodd bynnag, yn fuan wedi i mi ddechrau'r cwrs, roedd gweddill y modiwlau hefyd yr un mor ddiddorol. Derbyniais gyfoeth o wybodaeth, a chanfod am agweddau o'r Gymraeg nas clywais amdanynt o'r blaen, roedd wir fel chwa o awyr iach. Ni ddaeth y gair 'diflastod' ar fy nghyfyl. Ac er fy mod wedi bod yn eithaf nerfus ar y cychwyn, buan y bu i'r nerfau fy ngadael, gan fy mod yn mwynhau pob eiliad, ac yn cael cefnogaeth arbennig, fel bob myfyriwr arall yno.

Mae'r Gymraeg yn faes eang iawn, ac mae staff Ysgol y Gymraeg yn llwyddo i gyflwyno'n drwyadl i ni'r maes yn ei gyfanrwydd, a hynny gyda graen. Rwyf wrth fy modd yno, ac yn hynod falch i mi fentro i wneud y dewis iawn yn 2015. Ychydig a feddyliais yn ol yn 2015, y byddwn yn graddio gyda gradd dosbarth cyntaf eleni a minnau yn 51 mlwydd oed. Er i mi weithio'n ddygn mae'r diolch i ddarlithwyr Ysgol y Gymraeg am fy nysgu, fy ysbrydoli a fy nghefnogi.

████████████████████